Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Chris Aplin
Athro â Gofal
Canolfan Ddysgu Glanynant (UCD)
Hanbury Street
Glan-y-nant
Caerffili
NP12 3XP

05/06/2025

Annwyl Chris Aplin

**Ymweliad interim:** Mai 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr, dan arweiniad Hayley Smith AEF, â Chanolfan Ddysgu Glanynant yn ddiweddar i ystyried sut mae'r UCD wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Rhagfyr 2022.

Hoffai'r tîm ddiolch i staff a disgyblion yr UCD am eu cydweithrediad â'r ymweliad hwn ac am y croeso cynnes a gawsant.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion, craffu ar dystiolaeth a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau presennol yr ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac maent ganddynt gynlluniau addas ar waith i barhau i symud yr ysgol yn ei blaen.

Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y ddau argymhelliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod gan bob aelod o'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o gryfderau'r UCD a'r meysydd i'w datblygu

Ers yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod lleol wedi adolygu darpariaeth i ddisgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ar draws Caerffili. Mae hyn wedi arwain at sefydlu darpariaethau ychwanegol ac at newidiadau mewn personél allweddol ar lefel uwch. Mae arweinydd newydd yr awdurdod lleol ar gyfer AHY wedi sefydlu cyfarfodydd tîm wythnosol buddiol ar gyfer uwch arweinwyr i ddatblygu darpariaeth gyson ar draws pob safle. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y newidiadau hyn. Ar ben hynny, ers yr arolygiad craidd, mae'r pwyllgor rheoli gwreiddiol wedi'i ddiddymu. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu pwyllgor rheoli newydd sy'n goruchwylio gwaith y pedair darpariaeth AHY yng Nghaerffili. Mae gan bob un o'r darpariaethau ei his-bwyllgor ei hun. Mae'r is-bwyllgor sy'n canolbwyntio'n benodol ar Ganolfan Ddysgu Glanynant wedi cael ei gryfhau'n sylweddol.

Mae gan uwch arweinwyr, gan gynnwys y rhai o'r awdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol a'r pwyllgor rheoli, ddealltwriaeth gref o gyd-destun, cryfderau a meysydd i'w datblygu'r UCD. Mae'r wybodaeth fanwl hon wedi galluogi'r tîm gwella ysgolion rhanbarthol i ddarparu rhaglen wedi'i thargedu'n dda o ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel a chymorth effeithiol ar gyfer hunanwerthuso. O ganlyniad, mae'r UCD wedi elwa ar gymorth a her fwyfwy effeithiol, sydd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at welliannau pwysig. Yn arbennig, mae'r gwaith hwn wedi helpu i gryfhau ansawdd addysgu a dysgu, yn enwedig o ran bodloni anghenion unigol disgyblion.

Mae arweinwyr yn yr UCD yn defnyddio ystod eang o weithgareddau monitro sydd wedi'u cynllunio'n dda yn effeithiol i werthuso darpariaeth. Mae'r prosesau hyn yn rhoi dealltwriaeth glir a chywir i arweinwyr o flaenoriaethau ar gyfer gwella ac yn llywio cynllunio strategol yn dda. Mae blaenoriaethau gwella yn berthnasol ac yn adeiladu'n dda ar ganfyddiadau hunanwerthuso. Maent yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae uwch arweinwyr yn monitro cynnydd o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau ac yn gwerthuso effaith y gwelliannau ar ddeilliannau disgyblion. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn meysydd pwysig, er enghraifft mewn ymgysylltiad, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion a'u deilliannau dysgu. Efallai yr hoffai arweinwyr yn yr ALl ac UCD ystyried cryfhau gwerthuso deilliannau cynlluniedig ar gyfer blaenoriaethau gwella trwy ddatblygu meini prawf llwyddiant â ffocws.

Mae gan aelodau'r pwyllgor rheoli ystod eang o fedrau ac arbenigedd perthnasol i ategu eu rolau fel aelodau'r pwyllgor. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol ac ysgolion lleol, yn ogystal ag aelodau o blith athrawon a rhieni. Er bod ychydig o aelodau'r pwyllgor wedi cymryd rhan mewn ymweliadau a theithiau dysgu yn yr UCD, mae arweinwyr wedi nodi'r angen i sicrhau bod holl aelodau'r is-bwyllgor rheoli yn datblygu eu gwybodaeth uniongyrchol am ei darpariaeth a'i harfer. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith yr UCD, gan gynnwys ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Maent yn cynnig cymorth parhaus a her adeiladol. Wedi'u cefnogi gan dystiolaeth gadarn gan yr athro â gofal, maent yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol i sbarduno cynnydd a gwelliant parhaus yn yr UCD. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynnig cymorth a her werthfawr i'r athro â gofal a'r tîm staff ehangach.

## Gwella presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion mewn addysg amser llawn

Mae penderfyniad yr awdurdod lleol i ddyrannu swyddog lles addysg penodedig i'r UCD wedi cael effaith gadarnhaol ar arfer. Mae'r berthynas waith gref rhwng y swyddog lles addysg a staff yr UCD yn sicrhau ymagwedd gyson a chydlynol tuag at reoli presenoldeb. O ganlyniad, mae'r UCD wedi sefydlu systemau a phrosesau cadarn sy'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y lleoliad. Er bod cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn amrywio, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd unigol cryf yn eu presenoldeb o gymharu â'u mannau cychwyn.

Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion drefniadau amserlen ran-amser. Mae hwn yn welliant sylweddol. Mae disgwyliad clir i ddisgyblion fynychu'r UCD ar sail amser llawn. Mae prosesau cadarn ar waith i fonitro'r trefniadau hyn ac i ddisgyblion ddychwelyd i addysg amser llawn mewn modd amserol.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r arferion strwythuredig tawel a sefydledig trwy gydol y dydd. Mae disgyblion yn mwynhau ystod eang o weithgareddau ysgogol sydd wedi'u teilwra i fodloni eu hanghenion unigol yn dda. Mae gan staff berthynas waith gref â disgyblion, ynghyd â dealltwriaeth fanwl o'u hanghenion. Mae staff yn defnyddio eu dealltwriaeth o anghenion disgyblion yn dda i ragfynegi pa bryd y bydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn cymhwyso ystod o strategaethau pwrpasol yn effeithiol i dawelu sefyllfaoedd. O ganlyniad, caiff ymddygiad disgyblion ei reoli'n dda a chaiff disgyblion eu cefnogi i ailymgysylltu â'u dysgu yn brydlon.

Mae gwelliannau diweddar i'r amgylchedd dysgu yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflwyno'r cwricwlwm ac ymgysylltiad disgyblion. Mae creu mannau ychwanegol sydd wedi'u dylunio'n dda yn darparu ardaloedd tawel, cynlluniedig i ddisgyblion ddysgu, ochr yn ochr â'u hystafelloedd dosbarth arferol. Mae'r ardaloedd newydd hyn wedi cynyddu ystod ac amlder yr ymyriadau targedig sydd ar gael i ddisgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau cymhwyso strategaethau a ddysgwyd yn ystod sesiynau ymyrraeth yn fwy hyderus ac effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Megis dechrau cael ei roi ar waith y mae'r defnydd o gynlluniau ddysgu teilwredig i ddisgyblion. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'w cynlluniau dysgu teilwredig ac yn mwynhau'r ystod o weithgareddau y maent yn cael profiad ohonynt. Mae disgyblion yn elwa ar fanteisio ar ystod ddefnyddiol o adnoddau, gan gynnwys eu gliniadur eu hunain, sy'n cefnogi eu hymgysylltiad â'u dysgu. Mae staff yn defnyddio eu gwybodaeth am anghenion disgyblion unigol i addasu rhediad a chynnwys gwersi'n fedrus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau datblygu mwy o annibyniaeth yn eu dysgu. Yn ogystal, mae'r system wobrwyo weledol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gymell y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu helpu i feithrin gwydnwch. I gryfhau'r gwaith hwn ymhellach, dylai'r UCD barhau i roi dysgu teilwredig ar waith ar draws y ddarpariaeth, gan sicrhau bod yr holl gynllunio'n ystyried dilyniant disgyblion yn llawn ar draws pob maes dysgu.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr UCD a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6761104

Yn gywir

**Dyfrig Ellis**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol